## Gwneud newidiadau fel bod y rhwydwaith yn tyfu

Swyddfa'r Post yw'r mân-werthwr mwyaf o bell ffordd yn y DG, gyda dros 11,500 o ganghennau. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal presenoldeb masnachol hollbwysig ar y stryd fawr yn y DG, hyd yn oed wrth i lawer o fân- werthwyr barhau i'w gadael. Ein nod yw bod yn ffyddlon wrth gynnig y cyffyrddiad personol sydd ei angen ar gwsmeriaid drwy'r amser. Er bod Swyddfa’r Post ar gyfer pawb, gwyddom fod ambell ran o’r gymdeithas yn dibynnu arnom yn fwy nag eraill.

Yn unol â hyn, rydym yn darparu canghennau addas, mewn lleoliadau cyfleus, i wneud yn siŵr fod cwsmeriaid yn gallu cael hyd i gynnyrch a gwasanaethau Swyddfa’r Post sydd eu hangen arnynt. Drwy hyn, gallant ddefnyddio arian parod, talu biliau yn y fan a'r lle, prynu cynhyrchion ariannol a theithio, gwirio pwy ydynt a mwy.

Rydym wedi cyflwyno amrywiaeth o fodelau i gyflawni hyn, gan dreialu fformatau newydd sy'n symlach er mwyn ateb gofynion newidiol y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. O dan Raglen Trawsnewid y Rhwydwaith, rydym wedi moderneiddio dros 10,000 o ganghennau ac wedi rhoi canghennau Swyddfa'r Post mewn siopau. Rydym yn parhau i ddatblygu ein gwasanaethau er mwyn iddynt ddal i fod yn berthnasol i gwsmeriaid, yn addasu ein cynnyrch a'n gwasanaethau yn effeithiol, ac yn sicrhau ein bod yn darparu ar gyfer ein cwsmeriaid sydd fwyaf agored i niwed.

## Pam ydych chi'n gorfod gwneud newidiadau i'r rhwydwaith?

Mae’r ffordd rydym yn byw yn y DG yn newid yn gyflym ac mae arferion masnachol pobl yn cael eu newid. Er enghraifft, bu gostyngiad cyflym yn y defnydd o arian parod, ac mae banciau’n prysur ddiflannu o’r stryd fawr. I bobl sydd ag angen defnyddio arian parod, cael hyd i wasanaethau’r Llywodraeth neu dalu biliau, mae llai o leoedd y gallant fynd iddynt ar eu stryd fawr. Mae'r pandemig Coronafeirws wedi cyflymu’r newid hwn, gan gynyddu ansicrwydd economaidd a chaledi i lawer o bobl. I’r nifer fawr sy’n cael trafferth gyda’r newidiadau hyn, rydym yn falch o ddarparu canghennau sydd â'r gwasanaethau hanfodol nad oes ar gael mewn unman arall.

Ni fu erioed fwy o alw am ein cynhyrchion a'n gwasanaethau craidd o ran post a pharseli ac arian parod a bancio. Rydym yma hefyd ar gyfer y genhedlaeth newydd o werthwyr ar-lein sy'n dibynnu arnom ni i gael eu nwyddau i gwsmeriaid. Ni yw'r cownter i berchnogion busnesau bach lleol ar gyfer talu eu derbyniadau neu reoli eu harian.

Mae masnachfreintio, trwy bartner manwerth a ddewiswyd yn ofalus, yn rhan o'r broses barhaus o foderneiddio ein rhwydwaith, er mwyn cael cynaladwyedd masnachol. Bydd hefyd yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau a fydd yn ateb gofynion cwsmeriaid ac yn diogelu darpariaeth gwasanaeth yn awr ac yn yr hirdymor. Mae’r mwyafrif helaeth o’n 11,500 o ganghennau Swyddfa’r Post, mawr a bach, yn cael eu rhedeg yn llwyddiannus gyda phartneriaid manwerth, a chredwn taw dyma’r ffordd orau o gadw Swyddfeydd Post ar agor yn y prif leoliadau siopa ac yng nghanol cymunedau lle maent yn chwarae rhan bwysig yn yr economileol.

## Sut fydd y newidiadau hyn i ganghennau yn cael effaith arnaf i?

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd y gangen yn dal i gynnig yr un dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau ag ar hyn o bryd a chaiff ei rhedeg o hyd gan staff profiadol a chyfeillgar. Yn gyntaf, bydd yna ymgynghoriad neu gyfnod o ymgysylltu i gael eich barn am bethau fel hygyrchedd ac oriau agor.

Yn debyg i'r rhan o fwyaf o fân-werthwyr y stryd fawr, bu'n rhaid i ni fynd yn fwy hyblyg o ran darparu gwasanaethau i'n cwsmeriaid. Yn gyffredinol, yn lle cownter Swyddfa'r Post ar wahân, mae gennym ganghennau lleol, lle gall cwsmeriaid ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post ochr yn ochr â'r siop, gan greu profiad modern a chyfleus i gwsmeriaid. Mae'r canghennau hyn yn cynnig dewis o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post, yn aml yn ystod oriau agor estynedig, ac ambell waith saith diwrnod yr wythnos, fel gall cwsmeriaid ddefnyddio eu Swyddfa Bost pan mae'n gyfleus.

Yn ogystal â darparu gwasanaeth post traddodiadol a gwasanaethau eraill, mae rhwydwaith presennol Swyddfa'r Post yn casglu a dychwelyd eitemau siopa ar-lein, yn cynnig gwasanaeth 'Clicio a Chasglu' ar gyfer arian tramor mewn miloedd o ganghennau, a bancio beunyddiol i'r rhan fwyaf o gwsmeriaid banciau'r DG; nawr gall 99 y cant o gwsmeriaid bancio personol y DG a 75 y cant o gwsmeriaid busnes wneud eu bancio beunyddiol mewn unrhyw un o'n canghennau.

## Pam mae fy nghangen ar gau a sut allaf gael gwybod beth sy'n digwydd?

Ambell waith bydd newidiadau annisgwyl sydd y tu hwnt i'n rheolaeth yn digwydd i rwydwaith Swyddfa'r Post.

Er enghraifft, efallai y bydd y postfeistr yn ymddiswyddo neu y bydd problem fel llifogydd yn yr adeilad. Pan fo hynny'n digwydd gwnawn ein gorau i roi gwybod i chi cyn gynted â phosibl trwy osod posteri yn lleol a bydd gwybodaeth bellach ar gael ar ein Hyb Ymgynghori. Gallwch hefyd gael hyd i fanylion am ganghennau eraill yn yr ardal wrth ymweld â'n gwefan yn postoffice.co.uk/branch-finder

Os yw cangen yn cau, byddwn yn gweithio'n agos â'r postfeistr i ddatrys unrhyw broblemau fel y gallwn adfer gwasanaeth cyn gynted â phosibl. Pan nad oes modd gwneud hyn neu os nad yw'r gweithredydd yn gallu gofalu bellach am y gangen, byddwn yn ceisio cael hyd i bostfeistr newydd yn yr ardal leol a byddwn yn hysbysebu'r cyfle ar ein gwefan runapostoffice.co.uk: Mewn achosion or fath, byddwn hefyd yn gofyn i'n cwsmeriaid yn ogystal ag i'n cynrychiolwyr lleol os ydynt yn gwybod am unrhyw bartneriaid manwerth a allai fod â diddordeb mewn swydd wag, i rannu'r ddolen â nhw. Cyn gynted ag y bydd gennym gynllun addas ar gyfer yr ardal, rhoddwn wybod i'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr a byddwn yn gofyn am ymateb i'r hyn sydd gennym mewn golwg.

## Sut fyddaf yn gwybod os oes bwriad i newid fy nghangen?

Os oes bwriad i newid y gangen rydych yn ei defnyddio, bydd posteri â gwybodaeth yn cael eu gosod yn y gangen. Os ydym yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, bydd taflenni i gwsmeriaid hefyd ar gael yn y gangen, yn rhoi manylion pellach am y newidiadau. Yn ogystal, gallwch chwilio yn ôl enw neu god unigryw'r gangen neu'r cod post ar ein Canolfan Ymgynghori gael gwybod mwy. Bydd hyn yn rhoi llythyr gwybodaeth â manylion llawn am y newid a phryd y bydd yn digwydd.

## Sut fyddwch chi'n ystyried fy sylwadau cyn gwneud unrhyw newidiadau?

Rydym am wybod eich barn ac am ein bod yn bwriadu gwneud newidiadau, byddwn yn gofyn i chi am eich sylwadau ynglŷn â meysydd allweddol.

Os ydym yn bwriadu symud eich cangen i adeilad newydd, byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos cyn i ni wneud ein penderfyniad terfynol am y lleoliad newydd. Yn ystod y cyfnod hwnnw,

gallwch roi eich barn i ni am ein cynlluniau. Ar derfyn yr ymgynghori, bydd yr holl adborth yn cael ei ystyried yn ofalus cyn i ni wneud ein penderfyniad terfynol ynglŷn â'r symud arfaethedig.

Mae rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn rhoi gwybod am unrhyw newid ar gael yn ein dogfen Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ar ein Hyb Ymgynghori.

## Pa ffactorau fyddwch yn eu hystyried cyn penderfynu bwrw ymlaen ag unrhyw newidiadau?

Mae Swyddfa'r Post Cyf yn croesawu pob adborth, ond y prif ffactorau su'n cael eu hystyried wrth wneud penderfyniad yw hygyrchedd cwsmeriaid i mewn i a'r tu mewn i gangen arfaethedig, gyda sylw arbennig i gwsmeriaid sy'n agored i niwed. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw faterion yn y gymuned leol y gallai'r cynllun gael effaith arnynt.

Yn aml bydd pobl yn codi materion cyffredin fel parcio, traffig a chyflwr y ffyrdd. Er nad yw'r rhain yn gyfrifoldeb uniongyrchol i ni, byddwn yn ystyried yn ofalus unrhyw effaith y gallai'r newidiadau ei gael ar y materion lleol hyn.

## Sut ydw i'n cael gwybod am y penderfyniadau a wnaed gennych?

Byddwn yn rhoi gwybod i chi wrth osod posteri yn y gangen er mwyn eich cynorthwyo trwy gydol unrhyw newidiadau. Hefyd, bydd manylion yn cael eu cyhoeddi ar ein Hyb Ymgynghori o dan ymgynghoriadau caeedig. Os ydych wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac wedi cofnodi eich sylwadau yn electronig, byddwch hefyd yn derbyn dolen i'n Hyb Ymgynghori lle cyhoeddir y penderfyniad terfynol. Os ydych wedi ysgrifennu atom, byddwn yn ysgrifennu atoch chi er mwyn rhoi gwybod i chi am ein cynlluniauterfynol.

## Beth ddylwn ei wneud os ydwyf yn credu nad ydych wedi dilyn yr Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned?

Os ydych yn credu nad ydym wedi dilyn yr Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned, cysylltwch â ni fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff eirioli priodol i ddefnyddwyr (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff eirioli i ddefnyddwyr yn gwneud asesiad annibynnol i weld a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

## Mae gen i ddiddordeb mewn rhedeg Swyddfa Bost. Sut allaf wneud cais?

I gael rhagor o wybodaeth neu i chwilio am gyfleoedd busnes yn eich ardal, ymwelwch â'n gwefan runapostoffice.co.uk

## Rwyf eisiau rhagor o wybodaeth am gynhyrchion a gwasanaethau post

Mae'r Post Brenhinol yn gyfrifol am bopeth sy'n ymwneud â'r post, gan gynnwys casglu a dosbarthu post a lleoliad blychau postio. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i royalmail.com

### Sut allaf gael hyd i unrhyw wybodaeth arall am Swyddfa'r Post Cyf?

Rydym yn diweddaru ein gwefan yn gyson, ac i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ewch i postoffice.co.uk

**Sut mae'r Pandemig wedi cael effaith ar Rwydwaith Swyddfa'r Post?**

Ein blaenoriaeth yw cadw cwsmeriaid, postfeistri a chydweithwyr yn ddiogel ac iach. Efallai y bydd rhaid i rai canghennau gau dros dro neu leihau eu horiau agor heb rybudd. FAQs The Coronavirus Pandemic and Changes to the Post Office Network